



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 538 (Cy.75)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Ariannu Ysgolion a
Gynhelir
(Diwygio) (Cymru) 2003

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999 (sydd erbyn hyn yn gymwys i Gymru yn unig).

Mae Rheoliadau 1999 (fel y'u diwygiwyd o'r blaen) yn rhagnodi'r gwariant sydd i'w gyfrif fel cyllideb ysgolion lleol awdurdod addysg lleol ac yn pennu pa wariant y gall awdurdod ei dynnu oddi ar ei gyllid ysgolion lleol er mwyn cyrraedd ei gyllideb ysgolion unigol. Maent hefyd yn darparu ar gyfer sail dosbarthu'r gyllideb ysgolion unigol honno rhwng ysgolion. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau addysg lleol, drwy gynllun y maent yn ei baratoi, ymdrin â materion penodedig sy'n gysylltiedig ag ariannu'r ysgolion y maent yn eu cynnal.

Mae gwariant ar ailstrwythuro tâl athrawon a chyflogi athrawon uwch-fedrau ymhliith yr eitemau gwariant y gellir eu tynnu oddi ar y gyllideb ysgolion lleol a'u cadw yn ganolog. Serch hynny, ni ellir tynnu gwariant o'r fath ond ar gyfer y blynnyddoedd ariannol 2000-2003. Mae'r rheoliadau presennol yn darparu ar gyfer caniatâu tynnu gwariant o'r fath ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-4.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 538 (W.75)

EDUCATION, WALES

The Financing of Maintained Schools (Amendment) (Wales) Regulations 2003

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Financing of Maintained Schools Regulations 1999 (which now apply only to Wales).

Those 1999 Regulations (as previously amended) prescribe the expenditure which makes up a local education authority's local schools budget and specify what expenditure may be deducted by them from their local school's budget in order to arrive at their individual schools budget. They also provide for the basis on which the latter budget is to be distributed between schools. They require local education authorities in a scheme prepared by them, to deal with specified matters connected with the financing of schools which they maintain.

Among the items of expenditure which may be deducted from the local school's budget and retained centrally is expenditure on teachers' pay restructuring and the employment of advanced skills teachers. However, such expenditure may only be deducted for the financial years 2000-2003. The present regulations provide that such expenditure may be deducted for the financial year 2003-4.

2003 Rhif 538 (Cy.75)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Ariannu Ysgolion a
Gynhelir (Diwygio)
(Cymru) 2003*Wedi'u gwneud**5 Mawrth 2003**Yn dod i rym**6 Mawrth 2003*

2003 No. 538 (W.75)

EDUCATION, WALES

The Financing of Maintained
Schools (Amendment) (Wales)
Regulations 2003*Made**5th March 2003**Coming into force**6th March 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 46(2) a (3) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(a) ac a freiniwyd erbyn hyn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b).

Enw, cymhwys o a chychwyn

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003 ac maent yn dod i rym ar 6 Mawrth 2003.

(2) Maent yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Ni fydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn cysylltiad ag ariannu ysgolion a gynhelir yn yr un flwyddyn ariannol sydd yn dechrau cyn 1 Ebrill 2003.

Diwygio'r Rheoliadau

2.-(1) Diwygir Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999(c) fel y canlyn.

(2) Ym mharagraff 40A(1) o Atodlen 2(ch), yn lle "and 1st April 2002" rhowch ", 1st April 2002 and 1st April 2003".

(a) 1998 p.31. *Gweler* adran 142(1) am ddiffiniadau "prescribed" a "regulations". Mae adran 46 o Ddeddf 1998 Act yn cael ei ddiddymu yn rhagolygol gan Rhan 3 o Atodlen 22 i Ddeddf Addyseg 2002 (p.32).

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1999/101 fel y'i diwygwyd gan O.S. 2000/911 (Cy.40), O.S. 2001/495 (Cy.22) ac O.S. 2002/136 (Cy.19). Yr oedd y rheoliadau 1999 hynny yn wreiddiol yn gymwys i Gymru a Lloegr ond cawsant eu dirymu mewn cysylltiad â Lloegr gan O.S. 2000/478.

(ch) Mewnosodwyd paragraff 40A gan O.S. 2000/911 (Cy.40).

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 46(2) and (3) and 138(7) and (8) of the School Standards and Framework Act 1998(a) and now vested in the National Assembly for Wales(b).

Name, application and commencement

1.-(1) These Regulations are called the Financing of Maintained Schools (Amendment) (Wales) Regulations 2003 and shall come into force on 6th March 2003

(2) They apply only to Wales.

(3) The amendments made by these Regulations shall not apply in relation to the financing of maintained schools in any financial year beginning before 1st April 2003.

Amendment of Regulations

2.-(1) The Financing of Maintained Schools Regulations 1999(e) are amended as follows.

(2) In paragraph 40A(1) of Schedule 2(d), for "and 1st April 2002" substitute ", 1st April 2002 and 1st April 2003".

(a) 1998 c.31. For the meaning of "prescribed" and "regulations" see section 142(1). Section 46 of the 1998 Act is prospectively repealed by Part 3 of Schedule 22 to the Education Act 2002 (c.32).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1999/101 amended by S.I. 2000/911 (W.40), S.I. 2001/495 (W.22) and S.I. 2002/136 (W.19). Those 1999 regulations originally applied to both England and Wales but were revoked in relation to England by S.I. 2000/478.

(d) Paragraph 40A was inserted by S.I. 2000/911 (W.40).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

5 Mawrth 2003

5th March 2003

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**OFFERYNNAU STATUDOL****2003 Rhif 538 (Cy.75)****ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Ariannu Ysgolion a
Gynhelir
(Diwygio) (Cymru) 2003

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**STATUTORY INSTRUMENTS****2003 No. 538 (W.75)****EDUCATION, WALES**

The Financing of Maintained
Schools (Amendment) (Wales)
Regulations 2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£1.75

W28/03/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090677-2

